# Telerau ac Amodau Safonol

**GWNEIR Y CYTUNDEB HWN** ar y 15th dydd o fis Awst dwy fil a pumed ar hugain **RHWNG CYNGOR GWYNEDD** Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon Gwynedd ("y Cyngor") a **Alaw Cyf**. Plas Isaf, Rhewl, Ruthin, Cymru, LL15 1UH (rhif y cwmni 13299717) ("y Contractwr") **GAN FOD** Cyngor Gwynedd wedi penderfynu penodi'r Contractwr er mwyn Cynllun Marchnata Digidol Eryri Mynyddoedd a Môr 2025/26 yn unol â thelerau'r cytundeb hwn ac yn amodol arnynt.

**DIFFINIADAU**

golyga'r "Cyngor" Gyngor Gwynedd;

golyga "Adeiladau'r Cyngor" unrhyw dir neu adeiladau sydd ym mherchnogaeth neu yn neiliadaeth y Cyngor;

golyga "Gwybodaeth Gyfrinachol" bob gwybodaeth a dderbynia'r Contractwr gan y Cyngor neu gan unrhyw adran arall neu gan swyddfa Llywodraeth ei Mawrhydi sy'n berthnasol i'r Contract a'r Gwasanaethau ac yn gysylltiedig â hwy, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Contract ei hun a darpariaethau'r Contract;

golyga'r "Contract" y cytundeb a wnaed rhwng y Cyngor a'r Contractwr ar gyfer darparu Gwasanaethau, gan gynnwys heb gyfyngiad, yr Amodau (i'r graddau na fyddant yn cael eu heithrio'n benodol na'u diwygio), yr holl fanylebau, cynlluniau, lluniadau a dogfennau eraill a ymgorfforir yn y cytundeb;

golyga'r "Contractwr" y person sy'n cytuno darparu'r Gwasanaethau gan gynnwys unrhyw berson y trosglwyddir pob un o oblygiadau'r Cyngor neu ran ohonynt iddo, yn unol ag Amod 5;

golyga "Pris y Contract" y pris a gytunwyd arno mewn perthynas â'r Gwasanaethau, heb gynnwys Treth ar Werth;

golyga "Eiddo'r Cyngor" unrhyw beth a roddir mewn cysylltiad â'r Contract neu a ddarperir ar ei gyfer gan y Cyngor neu ar ei ran, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddogfennau, papurau neu ddeunyddiau eraill;

golyga "Hawliau Eiddo Deallusol" batentau, nodau masnachu, nodau gwasanaeth, hawlfraint dylunio (pa un ai a ydynt yn gofrestredig neu beidio), ceisiadau am unrhyw un o'r hawliau hynny, hawlfraint, hawliau cronfa ddata, enwau masnachu neu enwau busnes a hawliau neu oblygiadau cyffelyb eraill, pa un ai a ydynt yn gofrestredig neu beidio, mewn unrhyw wlad, gan gynnwys y Deyrnas Unedig, ond heb fod yn gyfyngedig iddi;

golyga'r "Archeb Brynu" y ddogfen a ddisgrifir fel y cyfryw gan y Cyngor ar gyfer prynu'r Gwasanaethau ac sy'n cyfeirio at yr Amodau;

golyga'r "Gwasanaethau" y gwasanaethau fydd yn cael eu darparu dan y Contract fel y'i disgrifir yn Atodlen 1;

**DEHONGLIAD**
Bydd cyfeiriad at unrhyw statud, deddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn cyffelyb yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y statud, deddfiad, gorchymyn, rheoliad neu offeryn fel y'i diwygiwyd neu fel y'i hail-ddeddfwyd wedi hynny;

Mae'r penawdau yn yr Amodau hyn er mwyn medru cyfeirio atynt yn hawdd yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar ddehongliad neu ffurf y Contract;

Mae cyfeiriad at "berson", ble bydd y cyd-destun yn caniatáu, yn cynnwys corfforaeth neu gymdeithas anghorfforedig.

**2. Cyfnod y Contract**

O 28 Gorffennaf 2025 hyd at 27 Mawrth 2026 yn ddibynnol ar y darpariaethau ar gyfer terfyniad cynharach.

**3. Gweithredoedd yr Awdurdod**

Bydd unrhyw benderfyniad, gweithred neu unrhyw beth y mae gofyn i'r Cyngor ei gyflawni neu ei wneud, neu y mae wedi'i awdurdodi i'w wneud dan y Contract, gael ei wneud neu ei gyflawni gan unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi gan y Cyngor, naill ai yn ddatganedig neu yn oblygedig, i wneud penderfyniad a gweithredu ar hynny neu wneud y peth hwnnw.

**4. Rhoi Rhybuddion ac Anfon Cyfathrebiadau**

Bydd unrhyw rybudd neu gyfathrebiad arall y bydd y naill barti yn ei roi dan y Contract yn cael ei roi yn ysgrifenedig a'i ddanfon naill ai drwy law, danfoniad cofnodedig post dosbarth cyntaf neu drosglwyddiad ebost. Bydd rhybudd a ddanfonir drwy law neu ebost yn effeithiol ar unwaith, bydd rhybudd a roddir drwy ddanfoniad cofnodedig drwy'r post yn effeithiol ddau ddiwrnod gwaith ar ôl y dyddiad postio.

**5. Aseinio ac Is-gontractio**

(1) Ni chaiff y Contractwr roi, bargeinio, gwerthu, aseinio, is-gontractio'r Contract neu waredu'r Contract mewn unrhyw ffordd arall neu unrhyw ran ohono heb yn gyntaf dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor.

(2) Ni chaiff y Contractwr ddefnyddio gwasanaethau unigolion hunangyflogedig mewn perthynas â'r Contract heb yn gyntaf dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor.

(3) Bydd y Contractwr yn gyfrifol am weithred neu anwaith ei isgontractwyr fel petaent yn rai o'i eiddo ef ei hun.

(4) Bydd hawl gan y Cyngor i aseinio unrhyw ran o'i hawliau dan y Contract neu'r cyfan ohonynt i unrhyw Awdurdod fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, os na fydd aseiniad o'r fath yn ychwanegu'n sylweddol at faich goblygiadau'r Contractwr dan y Contract.

**6. Y Cytundeb yn ei Gyfanrwydd**

Mae'r Contract yn cynnwys y cytundeb yn ei gyfanrwydd a'r ddealltwriaeth rhwng y partïon a bydd yn disodli pob datganiad ysgrifenedig neu ar lafar, cytundebau neu ddealltwriaeth a wnaethpwyd rhyngddynt ynghynt mewn perthynas â thestun y Contract os na fydd y naill barti na'r llall yn eithrio atebolrwydd am gamliwio twyllodrus y bu i'r parti arall ddibynnu arno.

**7. Ildiad Hawl**

(1) Ni fydd methiant y naill barti neu'r llall i gyflawni unrhyw hawl neu rwymedi yn golygu ildiad hawl i'r hawl neu rwymedi hwnnw.

(2) Ni fydd unrhyw ildiad hawl yn effeithiol oni bai y bydd yn cael ei gyfathrebu i'r parti arall yn ysgrifenedig.

(3) Ni fydd ildiad hawl i unrhyw hawl neu rwymedi a gyfyd oherwydd tor-Contract yn golygu ildiad hawl os cyfyd unrhyw doriad arall o'r Contract.

**8. Toradwyedd**

Os na fydd unrhyw Amod, cymal neu ddarpariaeth yn y Contract o natur sylfaenol yn cael ei ystyried yn anghyfreithiol, annilys neu na ellir ei orfodi gan lys neu dribiwnlys mewn unrhyw achosion yn ymwneud â'r Contract, yna ni fydd dilysrwydd neu orfodadwyedd gweddill y Contract yn cael ei effeithio. Os bydd y llys yn darganfod darpariaeth annilys sydd mor sylfaenol fel na ellir cyflawni diben y Contract, yna, bydd y partïon yn cychwyn trafodaethau ar unwaith yn ddidwyll er mwyn unioni'r annilysrwydd.

**9. Cyfrinachedd**

(1) Cytuna'r Contractwr na fydd yn datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol i unrhyw drydydd parti heb yn gyntaf dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor. I'r graddau ei bod yn angenrheidiol i'r Contractwr ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol i'w staff, asiantau ac is-gontractwyr, bydd y Contractwr yn sicrhau bod y cyfryw staff, asiantau ac is-gontractwyr yn atebol i'r un goblygiadau â'r Contractwr mewn perthynas â phob Gwybodaeth Gyfrinachol.

(2) Ni fydd Amod 9(1) yn berthnasol i wybodaeth:

(a) sydd yn wybodaeth gyhoeddus neu a fydd yn wybodaeth gyhoeddus (heblaw trwy dorri'r Amodau hyn neu dorri rhwymedigaeth cyfrinachedd);

(b) sydd ym mherchnogaeth y Contractwr, heb gyfyngiad ar ei ddatgelu, cyn iddo ei dderbyn gan y Cyngor;

(c) sydd yn ofynnol ei ddatgelu yn ôl y gyfraith.

(3) Bydd y goblygiadau a gynhwysir yn yr Amod hwn yn parhau i fod yn berthnasol ar ôl i'r Contract ddod i ben neu gael ei derfynu.

(4) Ni fydd y Contractwr yn cysylltu â chynrychiolwyr y wasg gyffredinol na'r wasg dechnegol, radio, teledu neu gyfryngau cyfathrebu eraill ynglŷn â'r Contract oni dderbyniwyd caniatâd ysgrifenedig blaenorol gan y Cyngor.

(5) Ni fydd y Contractwr yn gwneud defnydd o'r Contract neu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol heblaw ar gyfer gweithredu'r Gwasanaethau, oni dderbyniwyd caniatâd ysgrifenedig blaenorol gan y Cyngor.

(6) Mae'r Contractwr yn cydnabod bod y Cyngor, yn atebol i Ddarpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ac wedi'i rwymo iddynt, ac o ganlyniad, bydd unrhyw ddarpariaeth o'r cytundeb hwn neu unrhyw agwedd ohono sy'n rhoi gofyniad cyfrinachedd neu sy'n awgrymu hynny neu a allai gael ei ddehongli felly neu sydd â bwriad creu'r fath ddyletswydd trwy oblygiad neu trwy weithredu'r gyfraith yn gyfrwymol ond i'r graddau ag y bo'n gyson â goblygiadau'r Cyngor dan y ddeddfwriaeth honno.

**10. Diwygiadau ac Amrywiadau**

(1) Ni fydd unrhyw ddiwygiad neu amrywiad i delerau'r Contract yn ddilys oni bai y cytunwyd ar hyn yn ysgrifenedig yn flaenorol rhwng y Cyngor a'r Contractwr.

(2) Petai amrywiad rhwng dwy fersiwn o ddogfen, er enghraifft, rhwng fersiwn Gymraeg a Saesneg, yna dylid cyfeirio at fersiwn wreiddiol y ddogfen mewn unrhyw fater o anghydfnod neu anghytuno.

**11. Anfonebau a Ffioedd**

(1) Bydd y Contractwr yn cyflwyno anfonebau ar adegau neu gyfnodau a gytunwyd arnynt gan y Cyngor yn y Contract neu fel arall. Bydd y Contractwr yn sicrhau y bydd unrhyw anfoneb a fydd yn ei chyflwyno yn rhoi Archeb Brynu'r Cyngor neu rif y contract, y ffioedd ac os na fydd y cyfan o'r Gwasanaethau wedi eu cwblhau, y rhan berthnasol o'r ffioedd gyda dadansoddiad priodol o'r amser a weithiwyd, y rhan o'r Gwasanaethau (os na fydd y cyfan o'r Gwasanaethau wedi eu cyflawni) a'r cyfnod mae'r anfoneb yn cyfeirio ato a chadarnhad fod y Gwasanaethau (neu'r rhan berthnasol o'r Gwasanaethau a gyfeirir atynt yn yr anfoneb) wedi eu cwblhau yn gyfan gwbl.

(2) Mewn cydnabyddiaeth am ddarparu'r Gwasanaethau gan y Contractwr, bydd y Cyngor yn talu'r Ffioedd ar ôl derbyn anfoneb a gyflwynwyd yn y dull priodol fel a nodir yn Amod 11(1). Gwneir taliad o'r fath yn arferol o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn yr anfoneb a gyflwynwyd yn briodol.

(3) Ni fydd gan y Contractwr hawl i godi tâl am ddarparu unrhyw wasanaethau nad ydynt yn rhan o'r Gwasanaethau a gytunwyd arnynt yn y Contract, oni bai bod y Contract wedi'i ddiwygio'n briodol o flaen llaw yn unol ag Amod 10.

(4) Fe all y Cyngor ostwng y taliad am unrhyw Wasanaethau mae'r Contractwr naill ai wedi methu eu darparu neu eu darparu'n annigonol, yn ddiymrwymiad i unrhyw hawl neu rwymedi eraill o eiddo'r Cyngor.

(5) At ddiben cyfrifo unrhyw log statudol yn unol â Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llogau) 1998, pennir mai'r dyddiad perthnasol ar gyfer talu'r ddyled yw'r diwrnod olaf o gyfnod o 30 diwrnod gan gychwyn ar y diwrnod pan dderbyniwyd yr anfoneb gan y Cyngor, neu, os na fydd y Contractwr wedi cyflawni'r Gwasanaethau (neu'r rhan o'r Gwasanaethau a gyfeirir atynt yn yr anfoneb) cyn cyflwyno'r anfoneb, y diwrnod olaf o gyfnod o 30 diwrnod gan gychwyn ar y diwrnod pan gwblhaodd y Contractwr y Gwasanaethau, (neu'r rhan o'r Gwasanaethau a gyfeirir atynt yn yr anfoneb.)

**12. Cyfrifon**

(1) Bydd y Contractwr yn cadw cyfrifon llawn a chywir, cofnodion a thalebau yn ymwneud â phob gwariant a ad-dalwyd gan y Cyngor a'r holl daliadau a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â'r Gwasanaethau.

(2) Bydd y Contractwr yn caniatáu i'r Cyngor, yn gweithredu drwy ei swyddogion, ei weision a'i asiantau neu archwiliwr annibynnol yn ôl y gofyn ac ar bob amser rhesymol i archwilio'r holl gyfrifon, cofnodion a thalebau yn swyddfeydd y Contractwr neu yn unrhyw fannau eraill fel a gyfarwyddir gan yr Awdurdod a chymryd copïau o'r cyfryw gyfrifon, cofnodion a thalebau a bydd y Contractwr yn rhoi eglurhad ynglŷn â'r gwariant i'r Cyngor neu ei archwiliwr annibynnol ar gais y Cyngor.

(3) Bydd y Contractwr yn sicrhau bod y cyfryw gyfrifon, cofnodion, a thalebau ar gael am gyfnod o chwe blynedd ar ôl terfyniad neu ddiweddu'r Contract.

**13. Adennill Symiau Dyledus**

(1) Pryd bynnag y gellir adennill dan y Contract unrhyw swm o arian gan y Contractwr neu unrhyw swm o arian sy'n daladwy gan y Contractwr, gall y cyfryw swm gael ei thynnu o unrhyw swm fydd wedyn yn daladwy neu a allai fod yn ddyledus ar unrhyw adeg wedi hynny i'r Contractwr dan y Contract hwn neu unrhyw gytundeb neu drefniant arall â'r Cyngor.

(2) Bydd unrhyw ordaliad gan y Cyngor i'r Contractwr, pa un ai a fo mewn perthynas â'r Ffioedd neu Dreth ar Werth yn swm o arian a ellir ei adennill gan y Contractwr yn unol ag Amod 13(1) uchod neu fel arall.

**14. Treth ar Werth**

(1) Bydd y Cyngor yn talu i'r Contractwr, yn ychwanegol i'r Ffioedd, swm sydd gyfwerth â'r Dreth ar Werth sy'n daladwy ar bris y Gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r Contract.

(2) Bydd unrhyw anfoneb neu gais arall am daliad o arian sy'n ddyledus i'r Contractwr dan y Contract, os bydd yn berson trethadwy, ar yr un ffurf a phe byddai'n anfoneb treth ac yn cynnwys yr un wybodaeth a phe byddai'n anfoneb treth at ddibenion Rheoliadau a wnaed dan Ddeddf Treth ar Werth 1994.

(3) Bydd y Contractwr, os gwneir cais gan y Cyngor, yn darparu'r fath wybodaeth yr ystyrir yn rhesymol i'r Cyngor fod ei angen ynglŷn â swm y Dreth ar Werth sy'n daladwy ar y Gwasanaethau.

**15. Darparu Gwasanaethau**

(1) Bydd y Contractwr yn darparu'r Gwasanaethau yn unol â'r Contract ac fel y manylir ynddo hyd foddhad y Cyngor a bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol a phendant. Bydd hawl gan y Cyngor i archwilio ac ymchwilio i berfformiad y Gwasanaethau yn Adeiladau'r Cyngor ar unrhyw amser rhesymol neu, os bydd y Cyngor yn rhoi rhybudd rhesymol i'r Contractwr, mewn unrhyw adeiladau eraill ble bydd unrhyw ran o'r Gwasanaethau yn cael eu darparu.

(2) Bydd y Contractwr yn cadw at yr holl oblygiadau fel y cyfeirir atynt yn Atodlen 1.

(3) Os bydd y Cyngor yn hysbysu'r Contractwr fod y Cyngor yn ystyried bod unrhyw ran o'r Gwasanaethau yn anfoddhaol, neu yn gwahaniaethu oddi wrth y Contract mewn unrhyw ffordd, a bod hyn heblaw o ganlyniad i ddiffyg neu esgeulustod ar ran y Cyngor, yna, bydd y Contractwr ar ei gost ei hun yn aildrefnu a chwblhau'r gwaith yn gywir o fewn y fath amser rhesymol a all y Cyngor ei bennu.

(4) Fe all y Cyngor ar unrhyw adeg fynnu bod y Contractwr yn atal darparu'r Gwasanaethau. Os bydd y Cyngor yn gweithredu'r fath hawl i atal darparu'r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt, neu os bydd y Contractwr yn hwyr yn darparu'r Gwasanaethau gan y Cyngor (heblaw o ganlyniad i dor-contract, neu doriad dyletswydd neu fai neu esgeulustod ar ran y Contractwr), yna, bydd y Cyngor yn gyfrifol am y golled a gaiff y Contractwr o ganlyniad i'r fath ataliad neu ohiriad. Yn ddibynnol ar i'r Contractwr gymryd

camau rhesymol er mwyn lliniaru ei golled, ni fydd y Contractwr yn medru adennill gan y Cyngor dan yr Amod hwn ond y colledion hynny:

(a) fyddai'n rhesymol i'r Cyngor fod wedi eu rhagweld o ganlyniad uniongyrchol i'r ataliad neu'r oediad; ac

(b) sy'n ymwneud â chost unrhyw ymrwymiadau a wnaed gan y Contractwr na ellir eu cyflawni o ganlyniad i'r ataliad neu'r oediad ac na fydd y Contractwr yn medru derbyn ad-daliad mewn perthynas â hwy (os bydd y Contractwr wedi talu'n barod mewn perthynas â'r ymrwymiad) neu ei fod ag ymrwymiad i dalu (os na fydd y Contractwr wedi talu eisoes mewn perthynas â'r ymrwymiad.)

Ni fydd darpariaethau'r Amod hwn yn gymwys ble bo'r rheswm am atal y gwasanaethau yn deillio o amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

(5) Os bydd gweithredu'r Contract gan y Contractwr yn cael ei oedi oherwydd unrhyw weithred ar ran y Cyngor neu oherwydd anghydfod diwydiannol (heblaw am anghydfod diwydiannol a gyfyd yn sefydliad y Contractwr neu a gyfyd yn sefydliad ei is-gontractwyr) neu oherwydd unrhyw reswm arall na allai'r Contractwr fod wedi ei rwystro, yna, caniateir i'r Contractwr estyniad amser rhesymol i'w gwblhau. At ddibenion yr Amod hwn, pennir fod y Contractwr wedi medru rhwystro achosion yr oediad sydd o fewn rheolaeth resymol staff, asiantau ac is-gontractwyr y Contractwr.

(6) Mae darparu'r gwasanaethau yn amserol yn hanfodol i'r Contract gan gynnwys mewn perthynas â dechrau darparu'r Gwasanaethau o fewn yr amser a gytunwyd neu ar y dyddiad a bennwyd.

(7) Mae'r Contractwr yn gwarantu y bydd yn darparu'r Gwasanaethau â phob medr, gofal ac ymroddiad ac yn unol ag arfer da'r diwydiant a gofynion cyfreithiol.

(8) Yn ddiymrwymiad i ddarpariaeth Amod 13(1), bydd y Contractwr yn ad-dalu'r Cyngor am bob costau rhesymol a gaiff y Cyngor ac a gyfyd o ganlyniad uniongyrchol i oediad gan y Contractwr yn gweithredu'r Contract ac a fethwyd ei unioni gan y contractwr ar ôl iddo dderbyn rhybudd rhesymol gan y Cyngor.

**16. Taliad am Wasanaethau**

Mewn cydnabyddiaeth am y gwasanaethau a gyfeirir atynt dan Amod 15 ac Atodlen 1, bydd y Cyngor yn talu i'r Contractwr yn unol ag Atodlen 2.

**17. Adroddiad Cynnydd**

(1) Os bydd angen adroddiadau cynnydd ffurfiol yn unol â'r Contract, bydd y Contractwr yn cyflwyno'r fath adroddiadau ar y cyfryw amser ac yn y cyfryw ddiwyg â'r hyn y gall y Cyngor ei bennu neu fel y cytunwyd fel arall rhwng y Contractwr a'r Cyngor.

(2) Ni fydd cyflwyno a derbyn adroddiadau cynnydd yn rhagfarnu unrhyw hawliau sydd gan y Cyngor dan y Contract.

**18. Indemniadau ac Yswiriant**

(1) Bydd y Contractwr yn rhyddarbed ac yn indemnio'r Cyngor ar gais ganddo rhag ac yn erbyn pob hawliad, gorchmynion, achosion llys, achosion, iawndal, costau (yn cynnwys costau cyfreithiol), treuliau ac unrhyw atebolrwydd arall a gyfyd o hawliadau a wnaed gan staff y Cyngor neu ei asiantau, neu gan drydydd parti mewn perthynas ag unrhyw farwolaeth neu anafiadau corfforol neu golled neu ddinistr i eiddo neu ddifrod i'r cyfryw eiddo, neu unrhyw golled arall, dinistr neu ddifrod, yn cynnwys colledion ariannol sydd wedi eu hachosi ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, pa un ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, drwy dor-contract neu dordyletswydd (pa un ai mewn esgeuluster, tort, statud neu fel arall) gan y Contractwr, ei weithwyr, asiantau neu is-gontractwyr.

(2) Bydd y Contractwr yn atebol i'r Cyngor am unrhyw golled, difrod, dinistr, anaf neu dreuliau, pa un ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, (ac yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i golled neu ddinistr neu ddifrod i eiddo'r Cyngor, gan gynnwys data) a gyfyd oherwydd tor-contract gan y Contractwr neu dordyletswydd (pa un ai a gyfyd mewn esgeuluster, tort, statud neu fel arall).

(3) Bydd y Contractwr yn gwneud polisi neu bolisïau yswiriant â chwmni yswiriant gydag enw da a darparu sicrwydd yn gysylltiedig â phob risg a all y Contractwr fod yn agored iddo o ran yr indemniadau a ddarperir yn y Contract ac a fydd beth bynnag yn ddim llai na £1,000,000, a bydd y Contractwr, ar gais y Cyngor, yn cyflwyno'r polisi neu'r polisïau perthnasol ynghyd â'r dderbynneb neu dystiolaeth arall o'r premiwm dyledus diweddaraf.

(4) Nid oes dim yn yr Amodau hyn nac mewn unrhyw ran o'r Contract yn gosod atebolrwydd ar unrhyw aelod o staff y Cyngor neu ei gynrychiolwyr yn eu gallu personol.

(5) Bydd y Contractwr yn indemnio'r Cyngor yn erbyn holl achosion llys, achosion, hawliadau, gorchmynion, costau, (yn cynnwys costau cyfreithiol), ffioedd, treuliau ac unrhyw atebolrwydd arall a gyfyd oherwydd neu a geir o ganlyniad i unrhyw drosedd neu drosedd honedig unrhyw Hawliad Eiddo Deallusol trydydd parti a ddefnyddir gan y Contractwr neu ar ei ran ar gyfer dibenion y Contract, os na fydd y fath drosedd neu drosedd honedig wedi'i hachosi yn fwriadol gan unrhyw weithred ar ran y Cyngor neu a gyfrannwyd tuag ati gan y Cyngor.

(6) Bydd y Cyngor yn indemnio'r Contractwr yn erbyn holl achosion llys, achosion, hawliadau, gorchmynion, costau, (gan gynnwys costau cyfreithiol), ffioedd, treuliau ac

unrhyw atebolrwydd arall a gyfyd oherwydd neu o ganlyniad i unrhyw drosedd neu drosedd honedig unrhyw Hawliad Eiddo Deallusol trydydd parti a ddefnyddir ar gais y Cyngor gan y Contractwr wrth ddarparu'r Gwasanaethau, os na fydd y fath drosedd neu drosedd honedig wedi'i hachosi yn fwriadol gan unrhyw weithred ar ran y Contractwr, neu a gyfrannwyd tuag ati gan unrhyw weithred ar ran y Contractwr.

**19. Terfynu oherwydd Ansolfedd neu Newid Rheolaeth**

(1) Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ar unwaith os digwydd unrhyw un o'r hyn a ganlyn:

a) ble bo'r Contractwr yn unigolyn, ac os cyflwynir deiseb o fethdaliad ganddo, neu os bydd ef yn gwneud unrhyw gyfamod neu drefniant â'i gredydwyr neu er budd iddynt neu os bydd ef yn gwneud unrhyw drawsgludiad neu aseiniad er budd y credydwyr, neu os penodir gweinyddwr er mwyn rhoi trefn ar ei bethau; neu

b) ble na fo'r Contractwr yn unigolyn ond yn ffyrm neu yn nifer o bersonau yn gweithredu â'i gilydd ac os bydd unrhyw ddigwyddiad yn Amod 19(1) (a) neu (c) yn digwydd mewn perthynas ag unrhyw bartner yn y ffyrm neu unrhyw un o'r personau hynny, neu os cyflwynir deiseb er mwyn dirwyn y Contractwr i ben fel cwmni anghofrestredig; neu

c) ble bo'r Contractwr yn gwmni neu yn bartneriaeth ag atebolrwydd cyfyngedig, os bydd y cwmni neu'r bartneriaeth ag atebolrwydd cyfyngedig yn cael ei weinyddu neu os gwneir penderfyniad dirwyn i ben neu os bydd y llys yn gwneud gorchymyn gweinyddu neu orchymyn dirwyn i ben, neu os bydd y cwmni yn gwneud cyfamod neu drefniant â'i gredydwyr, neu os penodir derbynnydd gweinyddu, derbynnydd neu reolwr, gan gredydwr neu gan y llys, neu os cymerir meddiant o unrhyw un o'i eiddo yn unol â thelerau arwystl ansefydlog; neu

d) mae'r Contractwr yn newid rheolaeth, lle mae "rheolaeth" yn golygu'r hyn a olygir yn Adranau 450 a 451 o'r Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010.

(2) Ar ôl derbyn rhybudd dan baragraff (1) uchod neu ddatgeliad cynharach gan y Cyngor am unrhyw un o'r digwyddiadau a ddisgrifir yn y paragraff hwnnw, fe all y Cyngor drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Contractwr, derfynu'r Contract ar unwaith heb ddigolledu'r Contractwr ac yn ddiymrwymiad i unrhyw hawl neu weithred neu unioniad a all ddeillio i'r Cyngor wedi hynny. Bydd hawl gan y Cyngor i derfynu'r Contract dan Amod 20(1)(d) hyd at ddiwedd cyfnod o dri mis gan ddechrau ar ôl derbyn y rhybudd a roddir gan y Contractwr yn unol ag Amod 20(1), neu gyfnod arall cyffelyb a gytunir gan y partïon.

**20. Terfynu oherwydd Tor-Contract**

Os bydd y naill barti neu'r llall yn cyflawni tor-Contract perthnasol na ellir ei adfer neu os byddai'n bosibl ei adfer, a'u bod yn methu cyflawni adferiad toriad o'r fath o fewn 28 diwrnod o dderbyn hysbysiad gan y parti arall yn ysgrifenedig i wneud hynny, bydd y parti arall hwnnw â hawl i derfynu'r Contract ar unwaith trwy hysbysiad ysgrifenedig i'r parti sydd wedi cyflawni'r toriad perthnasol ac yn ddiymrwymiad i unrhyw hawl neu rwymedi

arall o eiddo'r naill barti neu'r llall mewn perthynas â'r tor-Contract neu unrhyw doriad arall o'r Contract.

**21. Diddymiad**

Bydd gan y Cyngor hawl i derfynu'r Contract, neu i derfynu unrhyw ran o ddarpariaeth y Gwasanaethau drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Contractwr ddim llai na 28 diwrnod i'r perwyl hwnnw am dor-Contract yn ddiymrwymiad i unrhyw hawl neu rwymedi o eiddo'r Contractwr am dor-Contract. Unwaith y bydd y cyfryw rybudd wedi'i roi, fe all y Cyngor ymestyn cyfnod y rhybudd ar unrhyw adeg cyn iddo ddod i ben, yn ddibynnol, ar gytundeb lefel Gwasanaethau fydd i'w darparu gan y Contractwr yn ystod cyfnod yr estyniad.

**22. Datrys Anghydfod**

(1) Bydd y partïon yn gwneud ymdrech, yn ddidwyll, i negodi setliad unrhyw anghydfod rhyngddynt a gyfyd o'r Contract neu mewn perthynas â'r Contract.

(2) Os na fydd y partïon yn datrys yr anghydfod, yn unol â pharagraff (1) o'r Amod hwn, fe all yr anghydfod, drwy gytundeb rhwng y ddau barti, gael ei gyfeirio at gyflafareddwr yn unol â pharagraff (4) o'r Amod hwn.

(3) Ni fydd y Gwasanaethau yn cael eu hatal neu eu hoedi os bydd anghydfod yn cael ei gyfeirio at gyflafareddu yn unol â pharagraff (2) o'r Amod hwn.

(4) Os bydd y partïon yn cytuno cyfeirio'r anghydfod i'w gyflafareddu, yna:

(a) er mwyn penderfynu ar y person fydd yn cyflafareddu'r anghydfod, ("y Cyflafareddwr") bydd y partïon yn dewis, trwy gytundeb, cynghorwr niwtral neu gyfamodwr o un o'r darparwyr datrys anghydfod a restrir gan Wasanaeth Masnachol y Goron ar eu gwefan neu yn eu canllawiau printiedig ar ddatrys anghydfod a hynny o fewn 30 diwrnod ar ôl cytuno cyfeirio'r anghydfod i'w gyflafareddu.

(b) o fewn 14 diwrnod ar ôl penodi'r Cyflafareddwr, bydd y partïon yn ei gyfarfod er mwyn cytuno ar raglen cyfnewid gwybodaeth berthnasol a'r strwythur i'w fabwysiadu ar gyfer cynnal trafodaethau;

(c) oni chytunir fel arall, bydd yr holl drafodaethau ynglŷn â'r anghydfod ac unrhyw gytundeb setliad yn ymwneud â'r anghydfod yn cael eu cynnal yn gyfrinachol ond yn ddiymrwymiad i hawliau'r partïon mewn unrhyw achosion yn y dyfodol;

(d) os bydd y partïon yn cytuno ar ddatrys yr anghydfod o fewn 60 diwrnod o benodi'r Cyflafareddwr, neu gyfnod hirach fel y cytunir rhwng y partïon, ysgrifennir y cytundeb a bydd y partïon yn rhwymedig iddo unwaith y caiff ei arwyddo gan y Cyngor a'r Contractwr;

(e) os methir cyrraedd cytundeb o fewn 60 diwrnod o benodi'r Cyflafareddwr, neu gyfnod hirach fel a gytunir rhwng y partïon, fe all unrhyw barti wahodd y Cyflafareddwr i roi barn ysgrifenedig na fydd yn ymrwymol ond er gwybodaeth. Bydd barn o'r fath yn cael ei rhoi

ar sail ei bod yn ddiymrwymiad ac ni chaiff ei defnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol yn ymwneud â'r Contract heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig y ddau barti ymlaen llaw.

(5) Os na fydd y partïon yn cytuno i gyfeirio'r anghydfod i'w gyflafareddu, neu os bydd y partïon yn methu cyrraedd cytundeb ynglŷn â phwy fydd yn cyflafareddu'r anghydfod yn unol ag Amod 22(4)(a) neu os byddant yn methu cytuno yn y trafodaethau strwythuredig o fewn 60 diwrnod o benodi'r Cyflafareddwr neu gyfnod hirach a all ei gytuno gan y partïon, yna, gall unrhyw anghydfod neu wahaniaeth rhyngddynt gael ei gyfeirio at y llysoedd.

**23. Rhoddion Llygredig a Thaliadau Comisiwn**

(1) Ni fydd y Contractwr yn:

a) cynnig neu roi i unrhyw berson a gyflogir gan y Cyngor neu ar ei ran, neu gytuno rhoi unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobr am wneud neu am fod wedi gwneud, neu am beidio â gwneud, unrhyw weithred mewn perthynas â derbyn neu weithredu'r Contract hwn neu unrhyw Gontract arall â'r Cyngor, neu am ddangos neu beidio â dangos ffafriaeth neu anffafriaeth i unrhyw berson mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw Gontract arall â'r Cyngor;

b) ymrwymo i'r Contract neu unrhyw gontract arall â'r Cyngor mewn perthynas â'r hyn y talwyd comisiwn, neu a gytunwyd i'w dalu ganddo ef neu ar ei ran, neu yn wybyddus iddo oni bai, cyn ymrwymo i'r Contract, bod manylion o unrhyw gomisiwn o'r fath a thelerau ac amodau unrhyw gytundeb i wneud taliadau, wedi cael eu datgelu yn ysgrifenedig i unrhyw berson a awdurdodwyd yn briodol gan y Cyngor i weithredu fel ei gynrychiolydd at ddiben yr Amod hwn.

Nid oes dim a gynhwysir yn yr Amod hwn yn rhwystro'r Contractwr rhag talu comisiwn o'r fath neu roi taliadau bonws i'w staff ei hun yn unol â'u contractau cyflogaeth y cytunwyd arnynt.

(2) Bydd unrhyw doriad o'r amod hwn gan y Contractwr, neu gan unrhyw un sy'n gyflogedig ganddo neu sydd yn gweithredu ar ei ran (pa un ai heb yn wybod iddo neu beidio), neu os cyflawnir unrhyw drosedd gan y Contractwr neu gan unrhyw un a gyflogir ganddo neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw gontract arall â'r Cyngor, yna bydd hawl gan y Cyngor i derfynu'r Contract ar unwaith ac adennill gan y Contractwr swm unrhyw golled o ganlyniad i'r fath derfyniad a swm gwerth unrhyw rodd, neu gydnabyddiaeth neu gomisiwn o'r fath ag a ystyria'r Cyngor yn addas.

(3) Ble bydd y Contract wedi'i derfynu dan baragraff (2) o'r Amod hwn, pennir y bu methiant i ddechrau darparu'r Gwasanaethau, gan alluogi'r Cyngor i derfynu'r Contract ar unwaith ac ni fydd goblygiad ar y Cyngor i dalu'r ffioedd.

(4) Mewn unrhyw anghydfod, gwahaniaeth neu gwestiwn a gyfyd mewn perthynas â:

a) dehongliad yr Amod hwn (ond cyn belled ag y gall yr un peth fod yn berthnasol i'r swm a ellir ei adennill gan y Contractwr dan baragraff (2) o'r Amod hwn mewn perthynas ag unrhyw golled sy'n deillio o bennu'r Contract); neu

b) hawl y Cyngor i bennu'r Contract, neu

c) cyfanswm neu werth y rhodd, y gydnabyddiaeth neu'r comisiwn, a bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol a phendant.

**24. Darpariaethau Arbennig**

Os bydd unrhyw wrthdrawiad neu anghysondeb rhwng yr Amodau cyffredinol hyn ac unrhyw delerau penodol yn y Contract, yr olaf fydd drechaf.

**25. Gwrthdrawiad Buddiannau**

(1) Bydd y Contractwr yn sicrhau na fydd unrhyw wrthdrawiad buddiannau fel y bo'n debygol o ragfarnu ei annibyniaeth a'i wrthrychedd wrth gyflawni'r Contract a bydd yn rhoi ei addewid y bydd ef, pan fo'n ymwybodol o unrhyw wrthdrawiad buddiannau o'r fath pan fo'r Contract yn cael ei weithredu (pa un ai a oedd y gwrthdrawiad yn bodoli cyn y dyfarnwyd y Contract neu yn codi yn ystod yr amser pan gyflawnwyd y Contract), yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r uchod ar unwaith, gan roi manylion o'i natur a'r amgylchiadau sy'n bodoli neu a gyfyd a bydd yn rhoi gwybodaeth bellach o'r fath i'r Cyngor a all fod yn rhesymol i'r Cyngor wneud cais amdano.

(2) Ble bydd y Cyngor o'r farn fod y gwrthdrawiad buddiannau yr hysbyswyd amdano dan baragraff (1) uchod yn bosibl i'w osgoi neu ei ddiddymu, fe all y Cyngor fod eisiau i'r Contractwr gymryd y fath gamau fydd, ym marn y Cyngor, yn osgoi neu yn diddymu'r gwrthdrawiad, ac:

a) os bydd y Contractwr yn methu cydymffurfio â gofynion y Cyngor mewn perthynas â hyn, neu

b) ym marn y Cyngor, nid yw'n bosibl diddymu'r gwrthdrawiad,

gall y Cyngor derfynu'r Contract ar unwaith ac adennill swm unrhyw golled o ganlyniad i'r fath derfyniad gan y Contractwr.

(3) Er gwaethaf Amod 25(2), ble bydd y Cyngor o'r farn y gellid bod wedi darganfod y gwrthdrawiad buddiannau oedd yn bodoli pan ddyfarnwyd y Contract yn sgil y cais a wnaed gan y Contractwr drwy iddo ddefnyddio gofal dyledus ac y dylid fod wedi ei ddatgelu fel sy'n ofynnol yn y dogfennau tendr yn ymwneud â'r Contract, gall y Cyngor derfynu'r Contract ar unwaith am dorri amod sylfaenol ac yn ddiymrwymiad i unrhyw hawliau eraill, ac adennill gan y Contractwr swm unrhyw golled o ganlyniad i derfyniad o'r fath.

**26. Hawliau Trydydd Parti**

Nid yw'n fwriad bod y Contract, naill ai yn benodol neu drwy oblygiad, yn rhoi unrhyw hawl neu fuddiant i unrhyw berson nad yw'n barti i'r Contract ac felly ni fydd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 yn berthnasol.

**27. Eiddo'r Cyngor**

(1) Bydd pob Eiddo'r Cyngor yn parhau i fod yn eiddo'r Cyngor ac fe'u defnyddir wrth weithredu'r Contract ac i ddim perwyl arall o gwbl ac eithrio os derbynnir caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor ymlaen llaw.

(2) Pennir bod pob Eiddo'r Cyngor mewn cyflwr da pan y'i derbyniwyd gan y Contractwr neu ar ei ran, oni bai fod y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor i'r gwrthwyneb o fewn 14 diwrnod neu'r fath amser arall fel a bennir yn y Contract.

(3) Bydd y Contractwr yn addo dychwelyd unrhyw Eiddo'r Cyngor a phob un ohonynt ar ôl cwblhau'r Contract neu ar gais cynharach gan y Cyngor.

(4) Bydd y Contractwr, heblaw os darperir amdano fel arall yn y Contract, yn trwsio neu adnewyddu, neu yn ôl dymuniad y Cyngor, yn talu iawndal am bob colled, pob dinistr neu bob difrod a ddigwydd i unrhyw Eiddo'r Cyngor ac a achoswyd gan y Contractwr ac a gydnabyddir ganddo, neu gan ei weision, ei asiantau neu ei is-gontractwyr, pa un ai a fo oherwydd ei weithrediad ef o'r Contract neu eu gweithrediad hwy ohono, a lle bynnag y digwydd, os digwydd y golled, y dinistr neu'r difrod yn adeiladau'r Cyngor, ni fydd yr Amod hwn yn berthnasol os bydd y Contractwr yn medru dangos na chafodd y fath golled, neu ddinistr neu ddifrod ei achosi neu ei gyfrannu tuag ato gan ei esgeulustod ef neu ei fethiant ef neu esgeulustod neu fethiant ei weision, ei asiantau neu ei is-gontractwyr.

**28. Diogelu Data**

**DIFFINIADAU:**

Bydd "Digwyddiad Colli Data" yn cyfeirio at unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at, neu all arwain at, fynediad diawdurdod at Ddata Personol a ddelir gan y Contractwr dan y Contract hwn, ac/neu sy'n arwain at, neu all arwain at, golli a/neu ddifrodi Data Personol yn groes i'r Contract hwn.

Bydd "Deddfwriaeth Diogelu Data" yn cyfeirio at (i) Deddf Diogelu Data 2018 ("DDD"), (ii) Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ((UE 2016/679) ("GDPR") ac unrhyw gyfreithiau gweithredu, rheoliadau ac is-ddeddfwriaeth cenedlaethol , cyhyd ag y bydd y GDPR yn weithredol yn y DU, ac (iii) unrhyw ddeddfwriaeth sy'n olynu'r DDD a'r GDPR.

Bydd "Asesiad Effaith Diogelu Data" yn cyfeirio at y Rheolydd yn cynnal asesiad effaith o'r prosesu a ragwelir ar warchod Data Personol.

Bydd "Cais Gwrthrych y Data" yn cyfeirio at gais a wneir gan, neu ar ran, Gwrthrych y Data yn unol â'r hawliau a ganiateir dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data i gael mynediad i'w Data Personol.

Bydd "Rheolyddion ar y Cyd" yn cyfeirio at ddau neu fwy o reolyddion sy'n penderfynu ar y diben a'r modd prosesu gyda'i gilydd.

Bydd "LED" yn cyfeirio at Gyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith (Cyfarwyddeb (UE) 2016/680)

Bydd "Mesurau Diogelu" yn cyfeirio at fesurau technegol a sefydliadol priodol all gynnwys: defnyddio ffugenwau ac amgryptio Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, cyfanrwydd, argaeledd a gwytnwch systemau a gwasanaethau, gan sicrhau bod modd adfer argaeledd a mynediad at Ddata Personol yn amserol yn dilyn digwyddiad, ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau technegol a sefydliadol a fabwysiadwyd ganddo yn rheolaidd.

Bydd "Is-brosesydd" yn cyfeirio at unrhyw drydydd parti a benodir i brosesu Data Personol ar ran y Prosesydd sy'n berthnasol i'r contract hwn.

Bydd "Personél y Contractwr" yn cyfeirio at holl gyfarwyddwyr, swyddogion, gweithwyr, asiantau, ymgynghorwyr a chontractwyr y Prosesydd a/neu unrhyw Is-brosesydd sy'n perfformio'i rwymedigaethau dan y Contract hwn.

Bydd "Diwrnod Gwaith" yn golygu dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio unrhyw wyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr;

Bydd y geiriau a'r ymadroddion a ddiffinnir mewn Deddfwriaeth Diogelu Data ac a ddefnyddir yn y Cytundeb hwn yn golygu'r un peth a amlinellir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, gan gynnwys, i osgoi amheuaeth, "Rheolydd", "Prosesydd", "Gwrthrych y Data" a "Data Personol".

**DIOGELU DATA**

**Rhwymedigaethau'r Contractwr**

(1) Mae'r Cyngor a'r Contractwr yn cydnabod er dibenion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, mai'r Cyngor yw'r Rheolydd ac mai'r Cyflenwr yw'r Prosesydd. Mae'r unig brosesu yr awdurdodir y Contractwr i'w wneud wedi cael ei restru yn Atodlen 3 y Contract hwn gan y Cyngor ac ni chaiff y Contractwr benderfynu arni.

(2) Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor ar unwaith os yw'n ystyried fod unrhyw un o gyfarwyddiadau'r Cyngor yn torri Deddfwriaeth Diogelu Data.

(3) Bydd y Contractwr yn rhoi pob cymorth rhesymol i'r Cyngor i baratoi Asesiad Effaith Diogelu Data cyn dechrau prosesu. Gall cymorth o'r fath, ar ddisgresiwn y Cyngor, gynnwys:

(i) disgrifiad systemataidd o'r gweithrediadau prosesu a ragwelir a diben y prosesu;

ii.) asesiad o reidrwydd a chyfranoledd y gweithrediadau prosesu mewn perthynas â'r gwasanaethau;

iii.) asesiad o'r risgiau i hawliau a rhyddid Gwrthrychau'r Data; a'r

iv.) mesurau a ragwelir i ymdrin â'r risgiau, gan gynnwys mesurau diogelu, mesurau diogelwch a mecanweithiau i sicrhau y diogelir Data Personol.

(4) Bydd y Contractwr, mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a brosesir mewn cysylltiad â'i rwymedigaethau dan y Contract hwn:

i) yn prosesu'r Data Personol hwnnw yn unol ag Atodlen 3 y Contract hwn yn unig oni bai fod y gyfraith yn gofyn i'r Contractwr wneud yn wahanol. Pan fo gofyn o'r fath ar y Contractwr, bydd yn hysbysu'r Cyngor ar fyrder cyn prosesu'r Data Personol, oni bai y gwaherddir hyn gan gyfraith;

ii) yn sicrhau bod Mesurau Diogelu yn eu lle, sy'n briodol ar gyfer diogelu yn erbyn Digwyddiad Colli Data, y gall y Rheolydd ei wrthod yn rhesymol (ond ni fydd methu â gwrthod gyfystyr â bod y Rheolydd yn derbyn digonolrwydd y Mesurau Diogelu) o ystyried:

a. Natur y data sydd i'w ddiogelu;
b. Y niwed all godi yn sgil Digwyddiad Colli Data;
c. Cyflwr datblygiad technolegol;
d. Cost gweithredu unrhyw fesurau;

iii.) Sicrhau:

iv) nad yw Personél y Contractwr yn prosesu Data Personol os nad yw hynny'n unol â'r Contract hwn (ac Atodlen 3 yn benodol);

a. Ei fod yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau dibynadwyedd a chyfanrwydd unrhyw un o bersonél y Contractwr sydd â mynediad i Ddata Personol a sicrhau eu bod:
b. Yn ymwybodol o ddyletswyddau'r Contractwr dan y cymal hwn ac yn cydymffurfio â hwy;
c. Yn destun ymrwymiadau cyfrinachedd priodol gyda'r Contractwr neu unrhyw Is-brosesydd;
d. Yn cael gwybod am natur gyfrinachol y Data Personol ac nad ydynt yn cyhoeddi, datgelu na'n datguddio unrhyw Ddata Personol i drydydd parti oni bai bod y Cyngor yn rhoi cyfarwyddyd ysgrifenedig iddynt wneud hynny neu fod y Contract hwn yn caniatáu hynny; ac
e. Wedi derbyn hyfforddiant priodol ar ddefnyddio, diogelu a thrin Data Personol a gofalu amdano a;

v.) Sicrhau nad yw wedi trosglwyddo Data Personol y tu allan i'r UE oni bai bod caniatâd ysgrifenedig gan y Rheolydd wedi'i dderbyn a bod yr amodau a ganlyn wedi'u bodloni:

a. Bod y Rheolydd neu'r Prosesydd wedi darparu mesurau diogelu priodol o ran y trosglwyddiad (boed yn unol ag Erthygl 46 GDPR neu Erthygl 37 LED) yn unol â phenderfyniad y Rheolydd;

b. Bod gan Wrthrych y Data hawliau y gellir eu gorfodi a datrysiadau cyfreithiol effeithiol;

c. Bod y Prosesydd yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data drwy ddarparu lefel ddigonol o ddiogelwch i unrhyw Ddata Personol sy'n cael ei drosglwyddo (neu, os nad yw wedi'i rwymo, yn defnyddio ei ymdrechion gorau i gynorthwyo'r Rheolydd i gyflawni ei rwymedigaethau); a

d. Bod y Prosesydd yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a roddwyd iddo ymlaen llaw gan y Rheolydd mewn perthynas â phrosesu'r Data Personol;

vi) Ar gyfarwyddyd ysgrifenedig y Cyngor, yn dileu neu ddychwelyd Data Personol (ac unrhyw gopïau ohono) i'r Cyngor ar derfyn y Contract oni bai bod gofyn i'r Contractwr gadw'r Data Personol yn unol â'r gyfraith.

vii) O ran unrhyw Ddata Personol mae'n ei gasglu gan Wrthrychau Data, sicrhau bod ganddo bob caniatâd a hysbysiad angenrheidiol a phriodol fel bod modd trosglwyddo'r data i'r Cyngor.

(5) Yn amodol ar gymal (6), bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cyngor ar unwaith os yw'n:

i.) derbyn Cais Mynediad Gwrthrych Data (neu Gais Mynediad Gwrthrych Data honedig);

ii.) derbyn cais i gywiro, gyfyngu neu ddileu unrhyw Ddata Personol;

iii) derbyn unrhyw gais, cwyn neu gyfathrebiad arall sy'n berthnasol i rwymedigaethau'r naill barti dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

iv) derbyn unrhyw gyfathrebiad gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod rheoleiddio arall mewn cyswllt â Data Personol a brosesir dan y Contract hwn;

v.) derbyn cais gan unrhyw drydydd parti i ddatgelu Data Personol pan fo gofyn cydymffurfio â chais o'r fath yn unol â'r gyfraith;

vi) dod yn ymwybodol o Ddigwyddiad Colli Data; neu

vii.) dod yn ymwybodol fod Deddfwriaeth Diogelu Data wedi cael ei thorri.

(6) Bydd rhwymedigaeth y Contractwr i hysbysu dan gymal (5) yn cynnwys darparu gwybodaeth bellach i'r Cyngor mewn camau, wrth i fanylion ddod ar gael.

(7) O ystyried natur y prosesu, bydd y Contractwr yn darparu pob cymorth i'r Cyngor o ran rhwymedigaethau'r naill barti dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac unrhyw gŵyn, cyfathrebiad neu gais a wneir dan gymal (5) (a chymaint â phosib o fewn y terfynau amser a ddisgwylir yn rhesymol gan y Cyngor) yn cynnwys drwy ddarparu'n brydlon:

i.) manylion llawn a chopïau o'r gŵyn, y cyfathrebiad neu'r cais i'r Cyngor;

ii.) y cymorth angenrheidiol y mae'r Cyngor yn gofyn yn rhesymol amdano i alluogi i'r Cyngor gydymffurfio â Chais Mynediad Gwrthrych Data o fewn y terfynau amser perthnasol a amlinellir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

iii.) unrhyw Ddata Personol y mae'n ei ddal ynghylch Gwrthrych Data ar gais y Cyngor;

iv.) cymorth fel y gofynnir amdano gan y Cyngor yn dilyn unrhyw Ddigwyddiad Colli Data neu pan fo'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn cael ei thorri;

v.) cymorth fel y gofynnir amdano gan y Cyngor o ran unrhyw gais gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, neu unrhyw ymgynghoriad gan y Cyngor gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

(8) Bydd y Contractwr yn cadw cofnodion a gwybodaeth gyflawn a chywir i ddangos ei gydymffurfiaeth â'r cymal hwn. Nid yw'r gofyn hwn yn berthnasol os yw'r Contractwr yn cyflogi llai na 250 aelod staff, oni bai:

i.) bod y Cyngor yn penderfynu nad yw'r prosesu yn achlysurol;

ii.) bod y Cyngor yn penderfynu fod y prosesu'n cynnwys categorïau arbennig o ddata fel y cyfeirir ato yn Erthygl 9(1) y GDPR neu Ddata Personol yn ymwneud â chollfarnau troseddol y cyfeirir atynt yn Erthygl 10 y GDPR; a

iii.) bod y Cyngor yn penderfynu fod y prosesu yn debygol o arwain at fygwth hawliau a rhyddid Gwrthrychau Data.

(9) Bydd y Contractwr yn caniatáu i'r Cyngor, neu archwiliwr penodedig y Cyngor, gynnal archwiliadau ar ei weithgareddau Prosesu Data.

(10) Bydd y Contractwr yn dynodi swyddog diogelu data os yw hynny'n ofynnol dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

(11) Cyn caniatáu i unrhyw Is-brosesydd brosesu unrhyw Ddata Personol sy'n berthnasol i'r Contract hwn, rhaid i'r Contractwr:

i. ) hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am yr Is-brosesydd arfaethedig a phrosesu;

ii. ) cael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor;

iii.) cytuno i gytundeb ysgrifenedig gyda'r Is-brosesydd sy'n gweithredu'r telerau a amlinellir yn y cymal 28 hwn fel eu bod yn berthnasol i'r Is-brosesydd; a

iv.) darparu gwybodaeth o'r fath ynghylch yr Is-brosesydd i'r Cyngor, yn unol ag unrhyw gais rhesymol ganddo.

(12) Bydd y Contractwr yn aros yn atebol am holl weithredoedd neu esgeulustra unrhyw Is-brosesydd.

**Rhwymedigaethau ar y Cyd**

(13) Gall y Cyngor, ar unrhyw adeg heb ddim llai na 30 Diwrnod Gwaith o rybudd, adolygu'r cymal hwn drwy ei newid am unrhyw gymal safonol rheolydd-i-brosesydd perthnasol neu delerau tebyg sy'n ffurfio rhan o gynllun ardystio perthnasol (fydd yn berthnasol pan fo'n cael ei ymgorffori drwy ei atodi i'r Contract hwn).

(14) Mae'r Cyngor a'r Contractwr yn cytuno i ystyried unrhyw ganllawiau a gyflwynir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gall y Cyngor, heb ddim llai na 30 Diwrnod Gwaith o rybudd i'r Contractwr, adolygu'r Contract hwn i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyflwynir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

(15) Bydd darpariaethau'r amod hwn yn berthnasol yn ystod parhad y Contract hwn ac am gyfnod amhenodol ar ôl iddo gael ei derfynu.

(16) Pe byddai'r Cyngor a'r Contractwr yn trin data mewn modd bod pob un ohonynt yn Rheolydd (ac nid yn Rheolyddion ar y Cyd), bydd y cymalau a ganlyn yn berthnasol:

Bob amser, bydd y Contractwr yn:

16.1 cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

16.2 Cadw cofrestriad wedi'i ddiweddaru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, os oes angen.

16.3 Peidio â throsglwyddo unrhyw Ddata Personol a gafwyd drwy'r Contractwr yn darparu'r Gwasanaethau tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor.

16.4 Cynnal mesurau diogelwch technegol a sefydliadol priodol er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan Erthygl 32 y GDPR, fel sy'n berthnasol.

16.5 Digolledu'r Cyngor yn llawn am unrhyw golled a ddaw i ran y Cyngor oherwydd bod y Contractwr yn torri darpariaethau 16.1 ac 16.2 uchod.

(17) Pe byddai'r Cyngor a'r Contractwr yn gweithredu fel Rheolyddion ar y Cyd, byddai'r cymalau a ganlyn yn berthnasol:

17.1 Bydd y Cyngor a'r Contractwr yn gwneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch pwrpas a modd prosesu data. Er dibenion y Contract hwn, bydd pob parti yn Rheolydd ar y Cyd.

17.2 Mae gan Wrthrychau Data hawl i ddefnyddio eu hawliau yn erbyn un neu'r cyfan o'r Rheolyddion ar y Cyd. Mae pob Rheolydd ar y Cyd yn atebol am yr holl ddifrod, a dywed Erthygl 82 (1) y Rheoliadau:

> *"Any person who has suffered material or non-material damage as a result of an infringement of this Regulation shall have the right to receive compensation from the controller or processor for the damage suffered."*

17.3 Yn unol â Datganiad 79 ac Erthygl 26 y Rheoliadau, bydd angen i'r Cyngor a'r Contractwr ddyrannu cyfrifoldebau cydymffurfio â diogelu data rhyngddynt. Yn benodol, bydd pob parti yn cadw at yr egwyddorion a ganlyn:

- Rhoi gwybodaeth i Wrthrychau Data dan Erthygl 13 ac 14 y GDPR.
- Ymateb i Geisiadau Gwrthrychau Data dan Erthyglau 15-22 y GDPR.
- Hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth lle bo angen (a Gwrthrychau Data) am dorri diogelwch data.
- Cynnal cofnodion prosesu dan Erthygl 30 y GDPR.
- Cynnal unrhyw Asesiad Effaith Diogelu Data sy'n ofynnol.
- Rhaid i'r cytundeb gynnwys datganiad o ran pwy yw person cyswllt Gwrthrych y Data.

17.4 Gall pob Rheolydd gael ei eithrio o fod yn atebol, naill ai'n rhannol, neu'n gyfan gwbl, os llwyddir i brofi nad yw'n gyfrifol am y digwyddiad a achosodd y difrod. Gall profi fod yr atebolrwydd wedi digwydd yn rhannol, neu'n gyfan gwbl oherwydd *force majeure* fod yn amddiffyniad. Os yw un Rheolydd ar y Cyd wedi talu iawndal yn llawn gall ddwyn achos yn erbyn y Rheolydd ar y Cyd arall i adennill cyfran o'r difrod.

17.5 Fel Rheolydd bydd y Contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy gofrestru ei hun fel Rheolydd gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os oes angen, a thrwy dalu'r ffi berthnasol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**29. Peidio â Gwahaniaethu**

Ni fydd y Contractwr yn gwahaniaethu yn anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas deddfwriaeth peidio â gwahaniaethu yn y DU mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau neu fel arall a bydd yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau na fydd holl weision, gweithwyr neu asiantau'r Contractwr a phob is-gontractwr a gyflogir ar gyfer gweithredu'r Cytundeb yn gwahaniaethu yn anghyfreithlon.

**30. Gofynion y Gymraeg**

Yn ddibynnol ar destun y Cytundeb, bydd y Cyngor yn gosod gofynion iaith fydd yn adlewyrchu egwyddorion Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor, gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar y Cyngor fel rhan o'r Mesur hwnnw.

Rhaid i'r holl gynnwys a deunyddiau marchnata digidol a gynhyrchir ar gyfer yr ymgyrch, fydd yn cael eu gweld gan gwsmeriaid, fod yn ddwyieithog lle bydd fersiwn Saesneg a fersiwn Gymraeg yn cael eu cynhyrchu neu un sydd â chynnwys Cymraeg a Saesneg. Bydd angen i unrhyw gyfathrebu â rhanddeiliaid allanol fel cymunedau, busnesau a'r Adroddiad Gwerthuso terfynol fod yn ddwyieithog hefyd.

**31. Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015**

Mae'n ofynnol i'r Contractwr gydymffurfio â darpariaethau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Caiff y Cyngor derfynu'r Contract drwy hysbysiad ar unwaith os yw'r Contractwr yn destun ymchwiliad ffurfiol am unrhyw drosedd o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 neu'n destun erlyniad mewn perthynas â'r Ddeddf.

**32. Deddfwriaeth Arall**

Bydd y Contractwr yn sicrhau bod ei is-gontractwyr, ei asiantau a'i staff yn cydymffurfio â phob cyfraith berthnasol.

**33. Cyflogaeth Foesegol**

(i) Wrth weithredu'r Contract, rhaid i'r Contractwr gydymffurfio â'r holl rwymedigaethau statudol cymwys sydd mewn grym am y tro gan gynnwys (yn ddigyfyngiad) y rheini sy'n berthnasol i iechyd, diogelwch a lles, yr amgylchedd, caethwasiaeth fodern, hawliau a pherthynas cyflogaeth, hawliau gweithio, hawliau dynol, diogelu data a chydraddoldeb.

(ii) Rhaid i'r Contractwr beidio â chynnal ei fusnes mewn modd a allai, ym marn y Cyngor, ddwyn anfri ar y Cyngor.

(iii) Rhaid i'r Contractwr ddarparu'r cyfryw wybodaeth fel y gofynnir amdani o dro i dro gan y Cyngor am gadwyn gyflenwi y Contractwr am y nwyddau/gwasanaethau a ddarperir.

(iv) Rhaid i'r Contractwr ddarparu'r cyfryw wybodaeth fel y gofynnir amdani o dro i dro gan y Cyngor am gadwyn gyflenwi y Contractwr am y nwyddau/gwasanaethau a ddarperir.

(v) Bydd gan y Cyngor yr hawl i arolygu ac archwilio safle'r Contractwr lle bydd y gwasanaethau/nwyddau yn cael eu cyflenwi/storio/darparu ar gais ac i siarad yn uniongyrchol â chyflogeion y Contractwr.

(vi) Caiff y Cyngor derfynu'r Contract drwy hysbysiad ar unwaith os yw'r Contractwr yn destun ymchwiliad ffurfiol, neu'n destun hawliad sy'n codi mewn cysylltiad â'i rwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â hawliau cyflogaeth, perthynas gyflogaeth, hawliau gweithio neu gydraddoldeb.

**34. Statws y Contractwr**

Nid oes dim yn y Contract yn creu, neu a ellir ei ddehongli fel petai yn creu partneriaeth, neu gyd-fenter, neu gontract cyflogaeth neu berthynas sy'n gyffelyb i gyflogwr a'i weithiwr, neu berthynas o bennaeth ac asiant rhwng y Cyngor a'r Contractwr.

**35. Trosglwyddo Gwasanaethau**

(1) Ble bydd y Cyngor yn bwriadu parhau â'r gwasanaethau sy'n cyfateb ag unrhyw rai o'r Gwasanaethau neu'r cyfan ohonynt ar ôl terfynu neu ddiweddu'r Contract, naill ai drwy i'r Cyngor eu darparu ei hun neu drwy benodi contractwr newydd, bydd y Contractwr yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau y bydd y trosglwyddiad yn digwydd gyda chyn lleied o aflonyddwch i'r Cyngor.

(2) Bydd y Contractwr yn cydweithredu'n llawn yn ystod cyfnod y trosglwyddiad ac yn darparu mynediad llawn at bob data, dogfennau, llawlyfrau, cyfeiriadau gweithio, adroddiadau ac unrhyw wybodaeth, pa un ai a fydd yn cael ei gadw mewn diwyg electronig neu ysgrifenedig, fel yr ystyria'r Cyngor yn angenrheidiol.

**36. Y Gyfraith ac Awdurdodaeth**

Bydd y Contract yn cael ei reoli gan gyfraith Lloegr a Chymru a'i ddehongli yn unol â hynny fel y'i cymhwysir yng Nghymru a bydd yn ddibynnol ar awdurdodaeth gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.

**ATODLEN 1**
**Goblygiadau'r Contractwr**

## Cynllun Marchnata Digidol

Bydd y cyflenwr yn gyfrifol am baratoi ymgyrch farchnata ddigidol 'Hwyl yn Eryri a Phen Llŷn' gyda'r prif amcanion o hyrwyddo diwylliant, treftadaeth, iaith, cymunedau a chyfleoedd awyr agored yr ardal.

## Creu Cynnwys Creadigol

- Bydd y cyflenwr yn gyfrifol am greu'r holl ddeunydd cynnwys sy'n angenrheidiol ar gyfer ymgyrch farchnata ddigidol 'Hwyl yn Eryri a Phen Llŷn'.
- Dylai'r cynnwys fod yn ddilys, yn ysbrydoledig, yn berthnasol i'r gynulleidfa, yn unigryw a chefnogi prif egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. Dylai'r cynnwys ddathlu, parchu a hyrwyddo ein cymunedau, ein hiaith, ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hamgylchedd.
- Rhaid defnyddio Canllawiau Brand Eryri Mynyddoedd a Môr wrth greu'r cynnwys ac lle yn bosib plethu i mewn gyda Croeso '25. Dyma'r nesaf yng nghyfres Croeso Cymru o flynyddoedd thematig a'i hymgyrch farchnata flaenllaw ar gyfer Cymru, sef Hwyl – a fydd yn canolbwyntio ar yr hwyl a'r llawenydd sydd ar gael ichi "dim ond yng Nghymru".
- Rhaid i'r holl gynnwys gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod cyn ei ddefnyddio yn yr ymgyrch farchnata ddigidol.
- Bydd angen defnyddio canllawiau Brandio Llywodraeth y DU ar yr holl gynnwys a grëir. Mae'n nodi isafswm gofynion cyhoeddusrwydd a brandio ar gyfer buddiolwyr cyllid llywodraeth y DU.
- Rhaid i'r holl gynnwys a deunyddiau marchnata digidol a gynhyrchir ar gyfer yr ymgyrch, fydd yn cael eu gweld gan gwsmeriaid, fod yn ddwyieithog lle bydd fersiwn Saesneg a fersiwn Gymraeg yn cael eu cynhyrchu neu un sydd â chynnwys Cymraeg a Saesneg. Bydd angen i unrhyw gyfathrebu â rhanddeiliaid allanol fel cymunedau, busnesau a'r Adroddiad Gwerthuso terfynol fod yn ddwyieithog hefyd. Trafodir yr union ofynion gyda'r cyflenwr llwyddiannus.
- Mae Cyngor Gwynedd yn darparu ei holl wasanaethau'n ddwyieithog yn unol â'i Bolisi Iaith Gymraeg. Dylid cynnwys unrhyw gostau cyfieithu yn eich tendr a rhaid i'r holl waith cyfieithu gael ei wneud gan gyfieithydd sy'n aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Gweler copi o'r polisi ar wefan Cyngor Gwynedd.

## Cynulleidfa Darged

Y segmentau demograffig a dargedir ar gyfer yr ymgyrch farchnata ddigidol yw'r Teithwyr Annibynnol.

Bydd yr ymgyrch a amlinellir yn y tendr yn targedu'r segmentau cynulleidfa isod:

- Selogion Awyr Agored
- Teuluoedd
- Archwilwyr Diwylliannol

Mae gwybodaeth ychwanegol am y proffiliau ar gael o wefan Croeso Cymru.

## Gweithredu a Rheoli'r Ymgyrch

Bydd y cyflenwr yn gyfrifol am weithredu a rheoli'r prosiect a'r cynllun marchnata digidol. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio offeryn rheoli prosiect effeithiol, bod â chyfathrebu effeithiol o fewn eich tîm a'r Awdurdod, bod yn drefnus a chynnal cyfarfodydd rheolaidd i fynd i'r afaelâ materion, amlygu risgiau ac adrodd ar berfformiad.

## Monitro ac Adrodd

Mae cyflawni allbynnau'r prosiect yn hanfodol ar gyfer prosiect llwyddiannus felly bydd monitro cyson a defnyddio data amser go iawn yn gymorth i gyflawni'r amcanion cyffredinol.

Dylid defnyddio offer dadansoddol a mewnwelediadau i edrych ar ystadegau megis ymweliadau â gwefannau, cyfraddau clicio drwodd, ymgysylltiad, amser ymgysylltu cyfartalog, rhannu, sylwadau a data arall i werthuso llwyddiant yr ymgyrch. Bydd gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata yn allweddol i gyflawni'r amcanion.

Bydd angen i'r cyflenwr ddarparu adroddiadau ysgrifenedig misol ar y cerrig milltir a fydd yn cael eu sefydlu a'r ystadegau allweddol a ddefnyddir yng ngham cynllun y prosiect.

Dylid derbyn yr adroddiad erbyn y **pumed diwrnod gwaith** bob mis fan bellaf.

## Adroddiad Gwerthuso

Bydd angen i'r cyflenwr wneud gwaith ymchwil i gasglu data a fydd yn darparu tystiolaeth bod yr ymgyrch farchnata ddigidol wedi cyflawni'r amcanion/allbynnau isod.

- Cynhyrchu lleiafswm o 50,000 o ymwelwyr unigol â'r wefan i dudalen neu dudalennauar wefan visitsnowdonia.info.
- Cynhyrchu o leiaf 2,500 o ymweliadau dydd neu dros nos ag ardal Eryri Mynyddoedda Môr.
- Cynhyrchu o leiaf £150,000 o wariant ychwanegol yn yr economi leol oherwyddymweliadau dydd neu arosiadau dros nos.

Dylai'r Adroddiad Gwerthuso hefyd gynnwys enghreifftiau o'r asedau marchnata digidol a gynhyrchwyd, y cynllun marchnata digidol, data mewnwelediad a'r ystadegau a ddefnyddiwyd i fonitro'r cynllun.

Dylai Cyngor Gwynedd dderbyn yr adroddiad dwyieithog ddim hwyrach na **27 Mawrth 2026**.

**ATODLEN 2**
**Taliad**

Bydd y Cyngor yn talu i'r Contractwr y symiau yn unol a'r tabl isod -

| **Allbwn** | **Mis** | **Canran Taliad** |
|---|---|---|
| Derbyn Cynllun Marchnata Digidol | Awst 2025 | Taliad 25% |
| Derbyn Adroddiad Prosiect hyd at Hydref | Hydref 2025 | Taliad 25% |
| Derbyn Adroddiad Prosiect hyd at Ionawr | Ionawr 2026 | Taliad 25% |
| Derbyn Adroddiad Gwerthuso Llawn y Prosiect. | Mawrth 2026 | Taliad 25% |

## ATODLEN 3

**ADEGAU PAN FO GAN Y CONTRACTWR AWDURDOD I BROSESU DATA**

**Prosesu, Data Personol a Gwrthrychau Data**

1. Bydd y Contractwr yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig pellach o ran prosesu gan y Cyngor.
2. Bydd unrhyw gyfarwyddiadau pellach o'r fath yn cael eu hymgorffori yn yr Atodlen hon.

| DISGRIFIAD | MANYLION |
|---|---|
| Testun y prosesu | Diben y Contract yw gweithredu cynllun marchnata digidol Eryri Mynyddoedd a Môr. |
| Cyfnod y prosesu | Bydd cyfnod y prosesu yr un hyd â Chyfnod y Contract. Yn ystod yr amser hwn, gall Cyngor Gwynedd gynnal neu fod yn destun archwiliad i adolygu cydymffurfiaeth y Contractwr gyda'r GDPR, yn unol â chymal 28 (Diogelu Data) ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i Wasanaethau. |
| Natur a dibenion y prosesu | Golyga natur y prosesu unrhyw weithred megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu ddiwygio, adalw, ymgynghori, defnyddio, datgelu trwy drosglwyddo, lledaenu neu ei wneud ar gael fel arall, alinio neu gyfuno, blocio, dileu neu ddinistrio data (boed hynny drwy fodd awtomatig ai peidio) ac ati.<br><br>Byddwn yn casglu gwybodaeth gan unigolion sydd yn llenwi'r holiadur fydd ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr er mwyn dadansoddi effaith economaidd y cynllun marchnata. Byddwn yn defnyddio'r data er mwyn dewis un enw er mwyn ennill gwobr fydd yn cael ei gynnig fel ysgogiad i lenwi'r ffurflen. Byddwn yn storio'r data ar systemau Alaw ac yn dileu yr holl data unwaith fydd un enillydd wedi ei dewis / ddewis. |

| | |
|---|---|
| Math y Data Personol | Mae'r GDPR yn berthnasol i "ddata personol" sy'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i berson y gellir ei adnabod ac y gellir ei adnabod yn benodol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn cyfeiriad at enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu i un neu fwy o ffactorau penodol o ran dynodwyr corfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.<br><br>Bydd y math o ddata personol a gynhwysir yn y cytundeb hwn yn cynnwys (ond ni fydd wedi'i gyfyngu i):<br><br>• Enw<br>• Cyfeiriad<br>• Rhif ffôn<br>• Cyfeiriad E-bost |
| Categorïau Gwrthrych y Data | Bydd y math o Wrthrychau Data a gynhwysir yn y cytundeb hwn yn cynnwys:<br><br>Defnyddwyr gwasanaeth. |
| Cynllunio ar gyfer dychwelyd a dinistrio'r data unwaith y bydd y prosesu wedi'i gwblhau ONI BAI bod gofyniad dan gyfraith undeb neu aelod wladwriaeth i gadw'r math hwnnw o ddata | Bydd y data yn cael ei ddileu dim hwyrach na diwrnod olaf y cytundeb hwn. |

TYSTIED HYN OLL fod y Partïon wedi cyflawni'r Cytundeb hwn ar y dyddiad a'r flwyddyn a ysgrifennwyd gyntaf uchod.

Gweithredwyd fel Gweithred trwy atodi Sêl Gyffredin
CYNGOR GWYNEDD
ym mhresenoldeb: -

....................................
Llofnodwr Awdurdodedig

44,750

**Arwyddwyd** fel **Gweithred**
gan ddau gyfarwyddwr ar
ran ALAW CYF: -

Llofnod ....................................

Enw Llawn SIAN POWELL
Cyfarwyddwr

Llofnod ....................................

Enw Llawn Llinos Williams
Cyfarwyddwr